

Teitl: Rheoleiddio Adneuo Cyfreithiol o ran cyhoeddiadau all-lein y DU Rhif IA: DCMS004 Prif adran neu asiantaeth: Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Adrannau neu asiantaethau eraill:	Asesiad Effaith (IA)				
	Dyddiad: 27/10/2011				
	Cam: Ymgynghoriad				
	Ffynhonnell yr ymyrraeth: Domestig				
	Math o fesur: Is-ddeddfwriaeth				
Cyswilt ar gyfer ymholiadau: Chris Marshall 020 7211 6151 Daniel Halpern 020 7211 6919					
Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau					Barn: RPCA Aros am Broses Graffu

Cost y Dewis Opsiwn (neu'r Opsiwn mwyaf tebygol)				
Cyfanswm Gwerth Presennol Net	Gwerth Presennol Net i Fusnesau	Cost net i fusnesau y flwyddyn (EANCB yn ôl prisiau 2009)	O fewn cwmpas Un i mewn, Un Allau?	Mae'r mesur yn gymwys fel
£-0.33	£-0.13m	£0.01m	le	Un i mewn

Beth yw'r broblem sy'n cael ei hystyried? Pam bod angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Ailgadarnhaodd Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 (Deddf 2003) y darpariaethau presennol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau print, a gyhoeddir yn y DU i'w hadneuo am ddim yn y Llyfrgell Brydeinig. Hefyd, mae gan bum llyfrgell arall yr hawl i gael un copi am ddim o gyhoeddiadau o'r fath os gofynnir am un. Gelwir y llyfrgelloedd hyn, ynghyd â'r Llyfrgell Brydeinig, y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol gyda'i gilydd. Wrth i gyhoeddwyd ddechrau newid i waith digidol, cyfyd pryder na chaiff deunydd ei warchod er cenedlaethau'r dyfodol. O dan Ddeddf 2003 crëwyd fframwaith deddfwriaethol lle y gellid gwneud Rheoliadau i adneuo cyhoeddiadau di-brint a chredwn mai dyma'r adeg gywir i ddechrau casglu deunydd di-brint.

Beth yw amcanion y polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Yr amcan yw caniatáu gwarchod cyhoeddiadau di-brint er cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y Rheoliadau drafft hyn o dan Ddeddf 2003 yn ymestyn Adneuo Cyfreithiol i gynnwys cynnwys all-lein, a chynnwys ar-lein y gellir cael gafael arno drwy broses gasglu. Maent hefyd yn cwmpasu cynnwys ar-lein sydd fwy neu lai yr un peth â gwaith print. Bydd hyn yn dileu'r angen i adneuo deunydd print a lleihau'r costau i'r sector cyhoeddi. Dim ond cynnwys all-lein y mae'r asesiad effaith hwn yn ymdrin ag ef, lle bo cost net fach, gwneir iawn am hynny, a mwy, drwy'r buddiant net yn yr asesiad effaith ar-lein.

Pa opsiynau polisi a ystyriwyd, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau amgen yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros eich dewis opsiwn (ceir rhagor o fanylion yn y Sail Dystiolaeth)

Sefydlwyd y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol, sef corff cyhoeddus anadrannol annibynnol, ym mis Medi 2005 i weithio ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar weithredu Deddf 2003 a gwneud argymhellion ynglŷn ag opsiynau rheoleiddio ar gyfer adneuo cyhoeddiadau di-brint. Ystyriwyd pedwar opsiwn ganddo:

1. Archifo gan gyhoeddwyd
2. Cod ymarfer gwirfoddol heb ei reoleiddio, ni fyddai ceisiadau yn cael eu gwneud gan y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol
3. Cynllun Gwirfoddol Hunanreoleidig, gyda llyfrgelloedd yn gwneud cais am ddeunydd (sy'n weithredol ar hyn o bryd)
4. Rheoleiddio Statudol - (y dewis opsiwn)

A gaiff y polisi ei adolygu? Caiff ei adolygu. Os yw'n gymwys, pennwch ddyddiad yr adolygiad: 04/2020

A fydd y broses weithredu yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE?			Dd/G		
A oes unrhyw rai o'r sefydliadau hyn o fewn y cwmpas? Os nad yw microfusnesau wedi'u heithrio nodwch y rheswm yn y Sail Dystiolaeth.	Micro Oes	< 20 Oes	Bach Oes	Canolig Oes	Mawr Oes
Beth yw'r newid cyfwerth â CO ₂ mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (Cyfwerth â Miliwn o Dunelli o CO ₂)			Masnachwyd:		Heb eu masnachu:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith ac rwyf yn fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cyflwyno barn resymol ar gostau, buddiannau ac effaith debygol y prif opsiynau.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol:

_____ Dyddiad: _____

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiw'n Polisi 1

Disgrifiad: Archifo gan Gyhoeddwy'r

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sail Brisiau 2009	Blwyddyn Sail Gwerth Presennol 2011	Cyfnod Amser Blynnyddoedd 10	Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)		
			IseI: 1.16	Uchel: 2.02	Amcangyfrif Gorau: 1.59

COSTAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynnyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio)	Cyfanswm y Gost (Gwerth Presennol)
IseI	0	Dewisol	Dewisol
Uchel	0	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif	0	Dewisol	Dewisol

Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Gan fod llai o eitemau yn cael eu hadneuo, nid oes unrhyw gostau ychwanegol heblaw am y rhai a drafodir yn y crynodeb o dystiolaeth. Bydd angen i gyhoeddwy'r sydd am gadw archif ariannu hyn ond ni fydd unrhyw rwymedigaeth arnynt i wneud hynny. Ni nodir y gost am hynny gan nad oes unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'i faint.

Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Ni fyddai llyfrgelloedd yn ceisio creu archif canolog, a byddai'r wlad yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y sector preifat. Byddai'r mynediad a gollid yn cael effaith negyddol ar waith ymchwil dynoliaethol, cymdeithasol, economaidd a gwyddonol, at ddefnydd y gymuned academiaidd, busnesau a diwydiant, y proffesiynau, y llywodraeth ac unigolion preifat. Ni fyddai hyn yn hwyluso'r gwaith o warchod deunyddiau yn yr hirdymor, ac mae'n bosibl na fydd treftadaeth ddiwylliannol ar gael fel deunydd i genedlaethau'r dyfodol.

BUDDIANNAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynnyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth Presennol)
IseI	0	0.1	1.2
Uchel	0	0.2	2
Amcangyfrif		0.2	1.6

Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Bydd cyhoeddwy'r yn adneuo 9,862 yn llai o eitemau na'r achos sylfaen (opsiwn 3), a fyddai'n arbed costau i'r cyhoeddwr, ac i'r llyfrgelloedd adneuo sydd bellach yn ymdrin â llai o adneuo. Cyfrifwyd arbedion drwy ddefnyddio cyfanswm costau cyfartalog y flwyddyn i'r llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol. Mae'n rhain yn cynnwys costau technoleg, staffio, mynediad a gwarchod deunydd; a'r gost gyfartalog i gyhoeddwy'r o ran cynhyrchu ac adneuo cynnwys.

Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Dim

Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol

Cyfradd ddisgownt (%)

3.5

Y prif risgiau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 1 yw:

- diffyg casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau all-lein
- goblygiadau ehangach o ran gwarchod deunyddiau a'r dreftadaeth ddiwylliannol.

ASESIAD BUSNES (Opsiw'n1)

Effaith uniongyrchol ar fusnesau (Effaith Flynyddol Costau: 0	Buddiannau: 0.07	Net: 0.07	O fewn cwmpas le	Mae'r mesur yn UN ALLAN
--	------------------	-----------	---------------------	----------------------------

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 2

Disgrifiad: Cod Ymarfer Gwirfoddol heb ei Reoleidio, dim ceisiadau gweithredol gan y llyfrgelloedd

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sail Brisiau 2009	Blwyddyn Sail Gwerth Presennol 2011	Cyfnod Amser Blynyddoedd 10	Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)		
			Isel: 0.66	Uchel: 1.02	Amcangyfrif Gorau: 0.84

COSTAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio)	Cyfanswm y Gost (Gwerth Presennol)
Isel	0	Dewisol	Dewisol
Uchel	0	Dewisol	Dewisol
Amcangyfrif	0	Dewisol	Dewisol

Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Dim

Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Caiff llai o eitemau eu hadneuo o'u cymharu â'r achos sylfaen, gan fod hyn yn wirfoddol ac nad yw llyfrgelloedd yn mynd ati i wneud cais am ddeunydd. Byddai'r mynediad a gollid yn cael effaith negyddol ar waith ymchwil dynoliaethol, cymdeithasol, economaidd a gwyddonol, at ddefnydd y gymuned academiaidd, busnesau a diwydiant, y proffesiynau, y llywodraeth ac unigolion preifat. Ni fyddai hyn yn hwyluso'r gwaith o warchod deunyddiau yn yr hirdymor, ac mae'n bosibl na fydd treftadaeth ddiwylliannol ar gael fel deunydd i genedlaethau'r dyfodol.

BUDDIANNAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth Presennol)
Isel	0	0.1	0.7
Uchel	0	0.1	1.0
Amcangyfrif	0	0.1	0.8

Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Bydd cyhoeddwr yn adneuo 4,151 yn llai o eitemau na'r achos sylfaen (opsiwn 3), a fyddai'n arbed costau i'r cyhoeddwr, ac i'r llyfrgelloedd adneuo sydd bellach yn ymdrin â llai o adneuo

Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae'r opsiwn hwn yn annog cyhoeddwr i adneuo cyhoeddiadau gyda'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a gallant ddewis a ydynt yn mynd i adneuo a sut i adneuo. O dan yr opsiwn hwn byddai'r Cod yn dod yn barhaol, gan annog cyhoeddwr i adneuo cyhoeddiadau all-lein a microffurf

Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol

Cyfradd ddisgownt (%)

3.5

Nid yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig y diogelwch cyfreithiol rhag difenwi ac ati a gâi ei roi i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a'r cyhoeddwr pe bai Rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith. Ni fyddai llywodraethu na chymorth ychwanegol gan gyrff y diwydiant ar wahân i roi cyhoeddusrwydd i'r Cod ei hun. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn diogelu'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol na'r cyhoeddwr rhag honiadau o ddifenwi a thorri hawlfraint. Hefyd, ni fyddai'r llyfrgelloedd yn mynd ati i nodi neu wneud cais am gyhoeddiadau

ASESIAD BUSNES (Opsiw 2)

Effaith uniongyrchol ar fusnesau (Effaith Flynyddol)	O fewn cwmpas	Mae'r mesur yn
Costau: 0.0	le	UN ALLAN
Buddiannau: .0.03		
Net: 0.03		

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 3

Disgrifiad: Cynllun Gwirfoddol Hunanreoledd, gyda cheisadau gweithredol gan y llyfrgelloedd

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sail Brisiau 2009	Blwyddyn Sail Gwerth Presennol 2011	Cyfnod Amser Blynyddoedd 10	Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)		
			IseI: 0	Uchel: 0	Amcangyfrif Gorau: 0

COSTAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio)	Cyfanswm y Gost (Gwerth Presennol)
IseI	0	0	0
Uchel	0	0	0
Amcangyfrif	0	0	0

Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Mae'r cynllun hwn ar waith ar hyn o bryd felly mae rhanddeiliaid eisoes yn cael unrhyw fuddiannau. Hwn yw'r opsiwn gwneud dim i bob diben.

Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

BUDDIANNAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth Presennol)
IseI	0	0	0
Uchel	0	0	0
Amcangyfrif	0	0	0

Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Byddai'r opsiwn hwn yn ychwanegu at y Cod Ymarfer Gwirfoddol yn Opsiw Dau drwy sefydlu cytundeb ffurfiol parhaol a strwythur llywodraethu drwy'r Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol, er mwyn cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan lyfrgelloedd a chyhoeddwy, cynllun monitro ac adrodd blynyddol, ac adolygiadau pum mlynedd o effeithiolrwydd y cynllun a'r duedd o ran nifer y cyhoeddiadau perthnasol.

Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Dim

Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol	Cyfradd ddisgownt (%)	3.5
--	------------------------------	-----

Nid yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig y diogelwch cyfreithiol ac ati a gâi ei roi i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a'r cyhoeddwyr pe bai Rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.
Mae angen i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol gael caniatâd cyhoeddwy i ganiatáu mynediad at y cynnwys a'r amodau sy'n gysylltiedig â hynny.

ASESIAD BUSNES (Opsiw 3)

Effaith uniongyrchol ar fusnesau (Effaith Flynyddol)	O fewn cwmpas	Mae'r mesur yn
Costau: 0	Oes	Dim cost net
Buddiannau: 0		
Net: 0		

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi 4

Disgrifiad: Rheoliadau Statudol

ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN

Blwyddyn Sail Brisiau 2009	Blwyddyn Sail Gwerth Presennol 2011	Cyfnod Amser Blynnyddoedd 10	Buddiant Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)		
			Isel: -0.42	Uchel: -0.24	Amcangyfrif Gorau: - 0.33

COSTAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynnyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio)	Cyfanswm y Gost (Gwerth Presennol)
Isel	0	0.03	0.2
Uchel	0	0.05	0.4
Amcangyfrif	0	0.04	0.3

Disgrifiad a graddau'r costau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae 1,286 yn fwy o eitemau yn cael eu hadneuo, sy'n arwain at gostau i gyhoeddwy ac i'r llyfrgelloedd adneuo. Mae'r costau hyn yn cynnwys:

- Cyfanswm cost gyfartalog y flwyddyn i'r llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys costau technoleg, staffio, mynediad a gwarchod deunydd;
- Y gost gyfartalog i gyhoeddwy o ran cynhyrchu ac adneuo costau.

Costau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Er mwyn sicrhau bod cyn lleied o effaith ar fodolau busnes cyhoeddwy, mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys rhai darpariaethau cyffredinol ynglŷn â gwaharddiadau. Bwriedir i'r rhain ddiogelu buddiannau masnachol y cyhoeddwy hynny y gellir effeithio arnynt yn afresymol os caniateir i ddarllenwyr gael mynediad at eu gwaith mewn Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol, er ar y sail gyfyngedig a bennir o dan y Rheoliadau drafft.

BUDDIANNAU (£m)	Cyfanswm Costau Pontio (Pris Cyson) Blynnyddoedd	Cost Flynyddol Gyfartalog (heb gynnwys Costau Pontio) (Pris Cyson)	Cyfanswm y Budd (Gwerth Presennol)
Isel	0	0	0
Uchel	0	0	0
Amcangyfrif	0	0	0

Disgrifiad a maint y buddiannau ariannol allweddol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Mae cynnydd yn nifer yr erthyglau yn fudd i gymdeithas

Buddiannau anariannol allweddol eraill yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Byddai hyn yn sicrhau ein bod yn cael archif mor gynhwysfawr â phosibl, ond heb gynyddu'r baich yn sylweddol ar y llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol na'r cyhoeddwy o gymharu ag opsiwn 3. Byddai hefyd yn sicrhau bod y llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwy yn cael y diogelwch cyfreithiol a roddir gan Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 megis diogelwch rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.

Tybiaethau/materion sensitif/risgiau allweddol

Cyfradd ddisgownt (%)

13.5

Er bod y cyfrifiadau a gyflwynir yma yn nodi cost net, nid yw hyn yn ystyried yr effaith gadarnhaol ar waith ymchwil dynoliaethol, cymdeithasol, economaidd a gwyddonol, defnydd o'r deunydd gan y gymuned academiaidd, busnes a diwydiant, y llywodraeth ac unigolion preifat. Byddai'r opsiwn hwn yn hwyluso'r gwaith o warchod deunyddiau yn yr hirdymor o'i gymharu ag opsiwn 1 ac opsiwn 2, ac yn casglu deunydd ychwanegol na fyddai wedi cael ei gasglu o dan opsiwn 3.

ASESIAD BUSNES (Opsiwn 4)

Effaith uniongyrchol ar fusnesau (Effaith Flynyddol Costau: 0.015	Buddiannau: 0	Net: 0.015	O fewn cwmpas le	Mae'r mesur yn UN I MEWN
--	---------------	------------	---------------------	-----------------------------

Sail Dystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

Y broblem sy'n cael ei hystyried;

- Mae diflaniad treftadaeth gyhoeddedig ar ba ffurf bynnag a fo yn gyfystyr â cholli gwerth ac mae gwledydd yn anelu at gynnal, cynyddu a lledaenu gwybodaeth drwy sicrhau bod eu treftadaeth ddogfennol o lyfrau, papurau, gweithiau celf a chofebau hanes a gwyddoniaeth yn cael eu gwarchod a'u diogelu.
- Mae treftadaeth ar y ffurf hon yn allanoldeb cadarnhaol, gan ei bod yn esgor ar welliannau o ran lles meddyliol, addysg a hunaniaeth leol/genedlaethol. Mae allanoldebau cadarnhaol eraill yn cynnwys 'gwerth cymynroddi' sy'n deillio o warchod y dreftadaeth er cenedlaethau'r dyfodol. Felly mae darpariaeth dreftadol yn cynnig buddiannau i gymdeithas sy'n mynd y tu hwnt i'r unigolyn, ond dim ond y buddiannau preifat a wêl y farchnad o bosibl, felly er mwyn sicrhau'r budd cymdeithasol mwyaf mae angen i ni oresgyn y methiant gwybodaeth anghymesur hwn. Ceir hefyd fethiant o ran cydgysylltu, yn yr ystyr y gallai cymdeithas gael budd o bosibl o ofalu am ddeunydd cyhoeddedig mae'n annhebygol o wneud hyn ar y cyd. O ganlyniad i fethiannau'r farchnad, bydd unigolion a sefydliadau yn tangyflenwi'r deunyddiau hyn yn systematig.
- O ran cyhoeddiadau print (annigidol) ymdrinnir â'r broblem hon fel arfer drwy lyfrgelloedd ac archifau cenedlaethol, weithiau ar y cyd â llyfrgelloedd ymchwil dethol, sy'n creu ac yn gwarchod casgliad cynhwysfawr o allbwn cyhoeddedig eu gwlad. Fel arfer cefnogir y gweithgarwch hwn gan fframwaith cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddwr, ar eu cost eu hunain, adneuo copi o bob gwaith gyda'r llyfrgell neu'r llyfrgelloedd penodedig - a elwir yn "adneuo cyfreithiol". Mae hyn yn helpu i sicrhau un archif yn unig, gan oresgyn problemau posibl o ran cydgysylltu o fewn sector mawr ac amrywiol. Ceir budd treftadaeth gyhoeddedig mewn astudiaeth a gomisiynwyd gan y Llyfrgell Brydeinig, a ganfu fod cyfanswm gwerth y Llyfrgell Brydeinig i economi'r DU bob blwyddyn yn £363m, gyda £59m yn mynd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr y gwasanaethau a £304m i'r gymdeithas ehangach. (British Library (2004) Measuring Our Value, Llundain, Y Llyfrgell Brydeinig)
- Mae system adneuo cyfreithiol statudol wedi bodoli yn y DU ers dros 300 o flynyddoedd o ran gwaith print. Fodd bynnag mae adnoddau gwybodaeth a mynegiant creadigol yn fwyfwy tebygol o gael eu cynhyrchu, eu dosbarthu, eu cyrchu a'u cynnal ar ffurf ddi-brint. Heb fframweithiau cyfreithiol, technegol na sefydliadol priodol i sicrhau y caiff y dreftadaeth ddi-brint hon ei diogelu, mae perygl y caiff ei cholli am byth.
- Cydnabyddir y risg hon gan y gymuned ymchwil a chan lawer o gyhoeddwr, yn enwedig y rhai sy'n cynhyrchu cyhoeddiadau o ddiddordeb ysgolheigaidd neu hanesyddol. Mae hefyd yn codi yn y rhan fwyaf o wledydd a llywodraethau; er enghraifft ar 15 Hydref 2003 mabwysiadodd aelod-wladwriaethau UNESCO Siarter ynglŷn â Gwarchod y Dreftadaeth Ddigidol a cheir, neu ceid, mentrau mewn sawl gwlad i ymestyn y system adneuo cyfreithiol i gynnwys cyhoeddiadau digidol. Mae'r Aseiad Effaith hwn yn ystyried opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag ef yn y DU, mewn perthynas â chynnwys digidol a gyhoeddir drwy'r rhyngwrld i'w lawrlwytho neu ei weld ar-lein.
- Y sail resymegol dros ymyrraeth;

Mae system adneuo cyfreithiol y DU wedi datblygu dros y canrifoedd ond gellir ei holrhain yn ôl i statudau i Gymru a Lloegr yn 1662 ac i'r Deyrnas Unedig gyfan yn 1710. Mae Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 sydd mewn grym yn gosod rhwymedigaeth ar gyhoeddwr i adneuo, ar eu cost eu hunain, un copi o bob cyhoeddiad print a gyhoeddir neu a ddosberthir yn y DU yn y Llyfrgell Brydeinig ac ar gais, mewn hyd at bum llyfrgell arall. O hyn ymlaen cyfeirir at y rhain fel y "Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol":

- Y Llyfrgell Brydeinig ("BL")
- Llyfrgell Bodleian, Rhydychen ("Bodleian")
- Llyfrgell Genedlaethol yr Alban ("NLS"). Noder: mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi hawliau i fynediad at weithiau cyfreithiol sydd wedi'u hadneuo gyda'r NLS i Lyfrgell Cyfadran yr Adfocatiaid ("FoA")

- Llyfrgell Genedlaethol Cymru ("NLW")
- Llyfrgell y Brifysgol, Caergrawnt ("CUL")
- Llyfrgell Coleg y Drindod, Dulyn ("TCD")

Mae Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 yn ymestyn y darpariaethau adneuo cyfreithiol presennol ar gyfer deunydd print i gwmpasu gwaith di-brint. Mae Deddf 2003 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Gemau Olympaidd, y Cyfryngau a Chwaraeon wneud is-ddeddfwriaeth sy'n dod â chyfryngau cyhoeddi newydd o fewn ei chwmpas. Mae'n rhaid i reoliadau o'r fath gael eu cymeradwyo gan benderfyniad cadarnhaol dau dŷ Senedd y DU ac ni ellir eu gwneud onid ymgynghorir â'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a'r cyhoeddwr y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ac oni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad yw'r rheoliadau yn effeithio'n afresymol ar fuddiannau personau sy'n cyhoeddi gwaith y mae a wnelo'r rheoliadau ag ef ac nad oes costau anghymesur i gyhoeddwr. Yn 2005, sefydlodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol fel corff cyhoeddus anadrannol cynghori annibynnol, yn gweithio ar hyd braich oddi wrth y Llywodraeth i gynghori a gwneud argymhellion ynglŷn â chynnwys rheoliadau o'r fath neu opsiynau eraill.

Cyflwynodd y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol ei argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddechrau 2009 yn unol ag argymhellion y Panel.

- Amcanion y polisi;
 1. Sicrhau archif cenedlaethol o gyhoeddiadau di-brint;
 2. Galluogi system effeithlon lle y caiff deunydd ei archifo a'i warchod yn y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol;
 3. Llywodraethu sut y gellir defnyddio copïau wedi'u hadneuo, gan gydbwysio anghenion llyfrgelloedd ac ymwelwyr â buddiannau cyhoeddwr a deiliaid hawliau;
 4. Hwyluso'r broses o warchod deunydd yn yr hirdymor fel y gellir parhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol;
 5. Sicrhau ymarferoldeb hirdymor drwy ei gwneud yn ofynnol i Lyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwr rannu'r cyfrifoldeb am archifo heb osod baich afresymol ar unrhyw sefydliad.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o gynnig cysylltiedig. Mae'r cynigion ynglŷn â chynnwys ar-lein yn mynd law yn llaw â'r cynnig hwn ac yn cynnig budd cyffredinol wrth ystyried cyd-destun y maes polisi ehangach.

- Disgrifiad o'r opsiynau a ystyriwyd (gan gynnwys gwneud dim);

Archifo gan Gyhoeddwr. (Opsiw Un)

O dan yr opsiwn hwn ni fyddai'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol yn ceisio creu archif canolog o waith a gyhoeddir mewn fformat digidol a byddai'r wlad yn dibynnu'n gyfan gwbl ar y sector preifat. Byddai cyhoeddwr yn cadw copïau o'u cyhoeddiadau eu hunain yn benodol at ddibenion archifol, gyda gwahanol drefniadau o ran mynediad a chost, gan arwain at greu sawl archif y tu ôl i rwystrau masnachol lluosog. Ni fyddai unrhyw sail gyfreithiol y gallai ymchwilyr ei defnyddio i gael mynediad at y cyhoeddiadau.

O dan God Ymarfer Gwirfoddol heb ei reoleiddio, ni fyddai ceisiadau yn cael eu gwneud gan lyfrgelloedd (Opsiw Dau)

Yn 2000, lluniwyd Cod Ymarfer gan gynrychiolwyr y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a'r Cymdeithasau Masnach gyhoeddi ar gyfer Adneuo Microffurf a chyhoeddiadau all-lein yn Wirfoddol. Drwy hyn anogwyd cyhoeddwr i adneuo gyda llyfrgelloedd; fodd bynnag, gallent ddewis p'un a fyddent yn adneuo a sut i adneuo. O dan yr opsiwn hwn byddai'r Cod yn dod yn barhaol, gan annog cyhoeddwr i adneuo cyhoeddiadau all-lein microffurf. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw lywodraethu na chymorth ychwanegol gan gyrff y diwydiant ar wahân i roi cyhoeddusrwydd i'r Cod ei hun. Hefyd, ni fyddai'r llyfrgelloedd yn mynd at i nodi neu wneud cais am gyhoeddiadau. Ni fyddai unrhyw sail gyfreithiol y gallai ymchwilyr ei

defnyddio i gael mynediad at y cyhoeddiadau. Hefyd, nid yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig y diogelwch cyfreithiol a gâi ei roi i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwy'r pe bai Rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.

Cynllun Gwirfoddol Hunanreoleidig, gyda Llyfrgelloedd yn gwneud cais am ddeunydd (Opsiw'n Tri)

Byddai'r opsiwn hwn yn ychwanegu at y Cod Ymarfer Gwirfoddol ar Adneuo cyhoeddiadau ar-lein Microffurf yn wirfoddol yn Opsiwn Dau drwy sefydlu cytundeb ffurfiol parhaol a strwythur llywodraethu. Byddai hyn yn cynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i lofnodi gan y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwy'r, cynllun monitro ac adrodd blynyddol, ac adolygiadau pum mlynedd o effeithiolrwydd y cynllun a'r duedd o ran nifer y cyhoeddiadau perthnasol. Câi cyhoeddwy'r eu hannog i adneuo drwy gynrychiolwyr Cymdeithasau Masnach; byddai'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol yn mynd ati i nodi cyhoeddiadau perthnasol a gwneud cais am eu hadneuo lle y bo angen. Ni fyddai unrhyw sail gyfreithiol y gallai ymchwilyr ei defnyddio i gael mynediad at y cyhoeddiadau. Hefyd, nid yw'r dull gweithredu hwn yn cynnig y diogelwch cyfreithiol a gâi ei roi i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwy'r pe bai Rheoliadau yn cael eu rhoi ar waith rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.

Ni fyddai busnesau yn gorfod mynd i gostau ychwanegol gan fod yr opsiwn hwn ar waith ar hyn o bryd felly hwn yw'r opsiwn gwneud dim i bob diben.

Rheoleiddio Statudol (Opsiw'n Pedwar)

Byddai rheoleiddio gan y Llywodraeth, o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003, yn gosod rhwymedigaeth ar gyhoeddwy'r i adneuo, am ddim, un copi o'u cyhoeddiadau all-lein ac ar-lein gyda'r Llyfrgell Brydeinig ac ar gais, gyda hyd at bum copi ychwanegol ar gyfer y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol eraill, ar yr un sail ag y caiff cyhoeddiadau print eu hadneuo o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003.

Ar gyfer pob opsiwn, mae'r buddiannau i randdeiliaid - gan gynnwys cyhoeddwy'r, llyfrgelloedd ac aelodau'r cyhoedd, wedi cael eu hasesu yn erbyn y costau gweinyddol cyffredinol (ac, i ryw raddau, yr effaith ar refeniw cyhoeddwy'r). Hefyd, ystyriwyd effeithiau eraill, megis risgiau posibl. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio'r sail dystiolaeth ar gyfer penderfynu ar yr opsiwn adneuo mwyaf priodol.

Costau ariannol ac anariannol a buddiannau pob opsiwn (gan gynnwys y baich gweinyddol):

Mae Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 yn cydnabod budd casglu a gwarchod casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau electronig y DU, gan gynnwys cyhoeddiadau all-lein a microffurf. Mae casgliad cynhwysfawr parhaol, wedi'i leoli'n ganolog ac ar gael am ddim i randdeiliaid cyhoeddus megis ymchwilyr, addysgwyr, a myfyrwyr, o fudd i ymchwilyr ac ysgolheictod yn y DU.

O ran Opsiwn Un, nid ydym yn ymwybodol bod cyhoeddwy'r fel mater o reol yn cynnal archif o gyhoeddiadau print neu all-lein, sydd ar gael i'r cyhoedd; mae hyn yn annhebygol o newid yn y dyfodol. At hynny, byddai cynnal archif o'r fath yn golygu bod cyhoeddwy'r yn gorfod ysgwyddo rhai costau cylch oes archif parhaol; efallai y byddai costau mynediad i randdeiliaid cyhoeddus.

Nid oes modd i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol wneud cais am gyhoeddiadau all-lein nad ydynt wedi'u hadneuo. Yn yr achos hwn, mae Opsiwn Dau yn debygol o fethu'r nod o ddarparu casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau all-lein o dipyn. Amcangyfrifir bod tua 6,000 o gyhoeddiadau all-lein eisoes wedi cael eu colli.

Dim ond Opsiwn Tri ac Opsiwn Pedwar a all sicrhau trefn adneuo sy'n debyg i'r drefn a geir ar hyn o bryd ar gyfer cyhoeddiadau print, gan warantu casgliad cynhwysfawr.

Yn bwysig ddigon dim ond Opsiwn Pedwar sy'n rhoi sail gyfreithiol y gallai ymchwilyr ei defnyddio i gael mynediad at y cyhoeddiadau. Ac mae'n cynnig diogelwch cyfreithiol rhag torri hawlfraint trydydd parti,

torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.

- Buddiannau i ymchwil ac ysgolheictod

Ymhlith buddiannau cyffredinol ymestyn adneuo cyfreithiol i ddeunydd di-brint mae'r ffaith y bydd archif cenedlaethol a hygyrch o ddeunyddiau cyhoeddedig y DU ar gael ac yn parhau i gael ei gynnal ar gyfer gwaith ymchwil dynoliaethol, cymdeithasol, economaidd a gwyddonol, at ddefnydd y gymuned academaidd, busnesau a diwydiant, y proffesiynau, y llywodraeth ac unigolion preifat. Bydd defnyddwyr yn cael budd o archif cyhoeddedig cenedlaethol wedi'i ddsbarthu'n ddaearyddol o bwys cenedlaethol a rhyngwladol ar sawl safle, gan arbed amser, costau teithio a chynhaliaeth.

- Buddiannau i'r DU

O ymestyn y drefn adneuo cyfreithiol bydd modd cynnal archif a chofnod cynhwysfawr o gyflawniadau deallusol a gwyddonol y DU. Bydd hyn yn ei dro o fudd i gymunedau yn y DU sydd o bwys allweddol i'w lles a'i ffyniant yn y dyfodol: ymchwilwyr ac addysgwyr; y sawl sy'n creu cyfoeth mewn sectorau busnes a diwydiant sy'n bodoli eisoes neu sectorau newydd; a'r gymuned wyddonol. Mae'r wlad hefyd yn cael budd o enw da rhyngwladol y BL a'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a'u casgliadau ac o'r gweithgarwch economaidd a gynhyrchir gan y nifer sylweddol o ymchwilwyr tramor sy'n eu defnyddio.

- Goblygiadau Ariannol Adneuo i Gyhoeddwyr a Llyfrgelloedd

Mae'n rhaid cydbwysu budd casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau all-lein ar gyfer y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol â chostau gweinyddol a chostau eraill i'r prif randdeiliaid e.e. llyfrgelloedd, a chyhoeddwyr yn enwedig. Os cyfunir y gost fesul trafodyn â chyfradd wirioneddol adneuo ar gyfer y cod gwirfoddol ac adneuo print, gellir cyfrifo costau gweinyddol cyffredinol posibl ar gyfer pob un o'r opsiynau adneuo fel a ganlyn:

Tabl 1: Goblygiadau Ariannol yn ôl Opsiwn

Opsiwn Adneuo	Nifer amcangyfrifedig o gyhoeddiadau wedi'u hadneuo gan gyhoeddwyr (y flwyddyn)¹	Costau Cyhoeddwyr y flwyddyn (Isel £2 fesul eitem)²	Costau Cyhoeddwyr y flwyddyn (Uchel £12 fesul eitem)²	Llyfrgelloedd Adneuo (cost y flwyddyn)³
(Opsiwn Un)	-9,862	19,724	118,344	114,749
Cod Gwirfoddol (Opsiwn Dau)	-4,151	8,302	49,812	67,985
Cynllun Gwirfoddol Hunanreoleddig (Opsiwn Tri)	0	0	0	0

Rheoleiddio Statudol (Opsiw'n Pedwar)	2,100	-4,200	-25,200	-23,349
---------------------------------------	-------	--------	---------	---------

(Mae ffigurau negyddol ar gyfer cyhoeddiadau yn cynrychioli costau o safbwynt cyhoeddwr, felly caiff llai o eitemau eu hadneuo gyda llyfrgelloedd adneuo. Mae ffigurau negyddol mewn colofnau eraill yn cynrychioli costau i gyhoeddwr a llyfrgelloedd adneuo).

Ffynhonnell:

1. Daw nifer y cyhoeddiadau o'r Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol, mae hyn yn tybio bod y chwe llyfrgell adneuo yn cael copi yr un.
2. Daw'r costau o bapur argymhellion y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol. Mae sylfaen y rhain wedi cael ei ailbennu i brisiau 2009, £2.03 a £12.17.
3. LIFE (prosiect wedi'i ariannu gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth sy'n dadansoddi costau cylch oes ar gyfer cyhoeddiadau wedi'u harchifo) sydd wedi edrych yn benodol ar gyhoeddiadau all-lein Casgliadau Adneuo Gwirfoddol yn y Llyfrgell Brydeinig. <http://eprints.ucl.ac.uk/1854/1/LifeProjMaster.pdf>

Cyfrifir yr effaith ar gyhoeddwr a llyfrgelloedd adneuo o'i chymharu â'r achos sylfaen, Opsiw'n 3. Mae costau cyhoeddwr ar gyfer Opsiw'n Dau, Opsiw'n Tri ac Opsiw'n Pedwar yn tybio bod adneuo yn cael eu gwneud fel rhan o'r broses ddsbarthu arferol ar adeg cyhoeddi. Mae'r gost i lyfrgelloedd adneuo yn seiliedig ar dystiolaeth o Wybodaeth Cylch Oes ar gyfer E-lenyddiaeth (LIFE) (prosiect wedi'i ariannu gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth sy'n dadansoddi costau cylch oes ar gyfer cyhoeddiadau wedi'u harchifo) sydd wedi edrych yn benodol ar Adneuo Cyhoeddiadau Electronig yn Wirfoddol yng nghyhoeddiadau all-lein y Llyfrgell Brydeinig. Daw costau'r cyhoeddwr o bapur argymhellion y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol, a gasglodd dystiolaeth ar effaith y cynllun cyfredol drwy astudiaethau achos o nifer o gyhoeddwr, cyfweiliadau anffurfiol, a rhyngweithio anffurfiol cyhoeddwr. Roedd cyfanswm y costau a ddyfynnwyd ganddynt (deunyddiau, costau cynhyrchu a dosbarthu) yn amrywio rhwng tua £2 a £12 yr eitem, defnyddir hwn ar gyfer yr amcangyfrif isel ac uchel o gostau cyhoeddwr. Mae nifer amcangyfrifedig y cyhoeddiadau yn seiliedig ar uchafswm nifer y copïau a adneuir bob blwyddyn (h.y. hyd at chwe chopi, un ar gyfer pob llyfrgell adneuo cyfreithiol, fesul cyhoeddiad) ac mae'r rhain yn cynnwys ysgrifau a rhannau cyfres.

O ran Opsiw'n Un, er bod costau gweinyddol yn gymharol isel, mae'n rhaid i gyhoeddwr sy'n cynnal archif ysgwyddo rhai costau cylch oes ar gyfer gwarchod, catalogio a rhoi mynediad. Gan na fyddai rhwymedigaeth i adneuo cyhoeddiadau all-lein, byddai angen i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol brynu cyhoeddiadau ar gost i bwrs y wlad (ond byddai hynny yn fuddiol o ran referiw cyhoeddwr), nid yw hyn wedi'i gyfrifo yma gan ei bod yn anodd amcangyfrif nifer y cyhoeddiadau y byddai cyhoeddwr yn dewis eu harchifo, ym mha fodd y byddent yn gwarchod deunyddiau a pha drefniadau mynediad a gâi eu cyddrafod gyda llyfrgelloedd, at hynny dim ond arbedion i adneuo cyfreithiol sydd wedi cael eu cyfrifo gan eu bod yn prosesu llai o adneuo yn Opsiw'n 1 i 3. Felly mae'r arbedion o Opsiw'n 1 ac Opsiw'n 2 wedi cael eu goramcangyfrif fwy na thebyg. At hynny, nid yw Opsiw'n 4 yn cynnwys cost unrhyw incwm a gollwyd gan gyhoeddwr o adneuo mwy o eitemau ac felly nid yw Opsiw'n 1 nac Opsiw'n 2 yn gwneud unrhyw dybiaethau o ran yr incwm a enillir o beidio ag adneuo gyda llyfrgelloedd adneuo mwyach.

Mae'r effaith fel a ganlyn heb gynnwys y gost a ddisgrifir yn y paragraff blaenorol: Yn Opsiw'n 1, bydd cyhoeddwr yn adneuo 9,862 yn llai o eitemau na'r achos sylfaen (Opsiw'n 3), a fyddai'n arbed costau i'r cyhoeddwr, ac i'r llyfrgelloedd adneuo sydd bellach yn ymdrin â llai o adneuo. Yn Opsiw'n 2, mae cyhoeddwr yn adneuo 4,151 yn llai o eitemau nac achos sylfaen Opsiw'n 3, sy'n arbed costau i'r cyhoeddwr a llyfrgelloedd adneuo. Yn Opsiw'n 3, nid oes newid yn nifer yr adneuo a hwn yw'r achos sylfaen. Yn olaf, yn Opsiw'n 4 mae 1,286 yn fwy o eitemau yn cael eu hadneuo, sy'n arwain at gostau i gyhoeddwr ac i'r llyfrgelloedd adneuo.

Er mwyn sicrhau bod cyn lleied o effaith ar fodolau busnes cyhoeddwr, mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys rhai darpariaethau cyffredinol ynglŷn â gwaharddiadau. Bwriedir i'r rhain ddiogelu buddiannau masnachol y cyhoeddwr hynny y gellir effeithio arnynt yn afresymol os caniateir i ddarllenwyr gael mynediad at eu gwaith mewn Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol, er ar y sail gyfyngedig a bennir o dan y Rheoliadau drafft. Er nad yw'r posibilrwydd o waharddiad yn codi'r rhwymedigaeth i adneuo'r cyhoeddiad gyda Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol, ni chaiff darllenwyr fynediad am gyfnod penodedig.

Fel dyletswydd statudol, Opsiw'n 4 o blith yr holl opsiynau fyddai'n arwain at y costau mwyaf i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwr. Fodd bynnag, byddai casgliad cynhwysfawr o

gyhoeddiadau all-lein yn bodoli yn y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol, gan sicrhau na fyddai angen i gyhoeddwr gadw casgliad preifat

- Costau ac Effeithiau ar Randdeiliaid Eraill

O ran Opsiwn 1 ac Opsiwn 2, bydd beichiau costau yn ymestyn i gynnwys grwpiau rhanddeiliaid eraill, sef busnes ac ymchwilwyr academaidd; myfyrwyr; addysgwyr; ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae'r ddau opsiwn yn gosod cost uniongyrchol ar y cyhoedd, nid yn unig am eu bod yn methu â sicrhau casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau all-lein o bell ffordd, ond hefyd yn achos Opsiwn 1 am fod archifau yn cael eu gwasgaru ar draws amrywiaeth o gyhoeddwr a chanddynt drefniadau mynediad gwahanol. Gallai'r ffactorau hyn beri costau i randdeiliaid cyhoeddus o ran amser, teithio a chynhaliaeth.

Mae Opsiwn 4 yn creu arbedion i ymchwilwyr yn yr ystyr y caiff y cyhoeddiadau eu casglu mewn ffordd gynhwysfawr, mewn safleoedd dynodedig. Yn achos Opsiwn 4, byddent ar gael i'r cyhoedd am ddim o fewn telerau'r Rheoliadau arfaethedig.

- Y sail resymegol a'r dystiolaeth sy'n cyfiawnhau'r lefel o ddadansoddiad a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith (dull gweithredu cymesur);

Daw'r data ar gostau a gasglwyd ar gyfer yr Asesiad Effaith hwn o waith a wnaed gan y Panel Ymgynghorol ar Adneuo Cyfreithiol a'r Llyfrgell Brydeinig. Nid yw costau eraill, megis refeniw a gollwyd gan gyhoeddwr a nifer y deunyddiau na fyddai cyhoeddwr yn eu harchifo wedi'u cyfrifo oherwydd diffyg tystiolaeth ynghylch y meysydd hyn.

- Risgiau a thybiaethau;

Mae'r rhan fwyaf o'r risgiau yn gysylltiedig ag (a) diffyg casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau all-lein a (b) goblygiadau ariannol pob opsiwn. Fodd bynnag, mae unrhyw opsiwn gwirfoddol yn dwyn risg fawr ychwanegol: diffyg diogelwch statudol rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib. Byddai'r Rheoliadau arfaethedig yn sicrhau y cwmpesir y risgiau hyn.

Y Risg sy'n gysylltiedig â Difenwi - efallai y bydd gan rywun sydd wedi cael ei ddifenwi mewn deunydd a archifwyd achos dros hawlio mewn perthynas â'r copi a archifwyd, fel arfer am fod y ffaith ei fod yn dal i fod ar gael i ddarllenwyr yn parhau â'r difenwad. Er enghraifft, gallai'r achwynydd fod wedi cael penderfyniad (drwy'r llys neu drwy setliad ar wahân gyda'r cyhoeddwr) bod pob copi yn cael ei dynnu'n ôl neu i ymddiheuriad neu wrthdynciad gael ei gyhoeddi, ond erys y copi a archifwyd fel yr oedd ar adeg ei gyhoeddi gyntaf. O dan gyfraith achosion (Loutchansky v Times Newspapers Ltd ac Eraill Rhif 2) gellir dadlau bod creu copi sgrin dros dro o waith digidol, sy'n digwydd bob tro yr edrychir ar waith digidol, yn gyfystyr â math o ailgyhoeddi ac felly gellid dadlau bod y llyfrgell adneuo yn creu difenwad newydd. Bydd y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol yn rhoi gweithdrefnau ar waith i dynnu unrhyw ddeunydd difenwol y cânt eu hysbysu yn ei gylch, h.y. gwahardd mynediad am gyfnod o flynyddoedd, a byddant yn ystyried camau lliniaru eraill. Fodd bynnag, byddai gweithdrefnau o'r fath fel arfer yn dibynnu ar sefyllfa lle mae'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol yn cael eu hysbysu am y difenwad gan y cyhoeddwr gwreiddiol, a allai hefyd yn fod yn rhannol gyfrifol felly os bydd diffyg cyfathrebu.

- Cyfrifo costau a buddiannau uniongyrchol i fusnesau (yn dilyn methodoleg OIOO);

Mae Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yn cael effeithiau cadarnhaol ar fusnesau am fod cyhoeddwr yn adneuo llai mewn llyfrgelloedd. Mae Opsiwn 4 yn rhoi mwy o faich ar fusnesau, gyda £0.01 o ran EANCB, gan fod yn rhaid i gyhoeddwr adneuo eitemau gyda'r llyfrgelloedd adneuo o dan y gyfraith. Fodd bynnag mae'r costau ychwanegol hyn yn fach o ystyried buddiannau ehangach y polisi, a'r buddiannau net cadarnhaol a ddaw yn sgîl rheoliadau ynglŷn ag adneuo ar-lein.

Mae microfusnesau wedi'u cynnwys yn y rheoliad hwn ac er y byddant yn gorfod ysgwyddo baich y cynnig hwn hefyd maent yn debygol o gael budd o ddeunydd llyfrgelloedd adneuo sydd ar gael am ddim iddynt.

- Effeithiau Ehangach

Mae gan lyfrgelloedd adneuo hanes hir o ddarparu sgiliau ac addysg, mae casgliad cynhwysfawr yn rhan allweddol o sicrhau bod hwn yn gynnig effeithiol. Mae'r rheoliad hwn yn symbylu gwaith ymchwil a datblygu drwy sicrhau a chynyddu faint o ddeunydd sydd ar gael am ddim i ymchwilwyr, busnesau a'r cyhoedd, mae hyn yn helpu i ysgogi arloesi, sef y prif sbardun i dwf hirdymor. Er nad yw'r effeithiau hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag adneuo all-lein ceir tystiolaeth dda o'r effeithiau hyn mewn gwaith a wnaed gan lyfrgelloedd adneuo gyda'i gilydd, er enghraifft, mae'r Llyfrgell Brydeinig y darparu llawer o wasanaethau gwahanol i fusnesau a rhaglenni dysgu ac addysgol.

Bydd y rheoliadau hefyd yn caniatáu i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol newid fformat deunydd i'w wneud yn haws i bobl â nam ar y golwg ei ddarllen, gan wella eu mynediad at ddeunydd cyhoedddeg.

- Crynodeb a dewis opsiwn gyda disgrifiad o'r cynllun gweithredu.

Gan nad yw Rheoliadau ar gyfer gwaith di-brint yn cael eu cyflwyno fesul cam mwyach ni fydd ailddrafftio'r Rheoliadau ar gyfer cyhoeddiadau all-lein yn ychwanegu unrhyw gostau sylweddol i ddrafftio'r Rheoliadau yn eu cyfanrwydd. O gynnwys cyhoeddiadau all-lein yn y Rheoliadau bydd hynny'n sicrhau bod y Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol a chyhoeddwr yn cael diogelwch cyfreithiol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 sy'n cynnig diogelwch rhag torri hawlfraint trydydd parti, torri amodau trwydded (e.e. ar gyfer meddalwedd), a mathau eraill o atebolrwydd cyfreithiol posibl, megis difenwi ac enllib.

Drwy gynnwys cyhoeddiadau all-lein yn y Rheoliadau ni fyddwn yn cynyddu'r costau i fusnesau yn sylweddol uwchlaw'r costau sydd eisoes yn codi (mae Opsiwn 3 eisoes ar waith) a chaiff archif mwy cynhwysfawr o waith di-brint ei gasglu. Disgwylir i'r cyhoeddwr hynny sy'n cyhoeddi'r un cyhoeddiad mewn fformat print ac all-lein wneud arbedion drwy adneuo fersiynau all-lein yn unig.